

# Arweiniad i Arolygwyr

# Beth rydym yn ei arolygu mewn carchardai dynion

Mae'r arweiniad hwn hefyd ar gael yn Saesneg.

Estyn

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2025:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cynnwys

_Toc214443172

**Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu carchardai dynion ........ 1**

**Rhan 1: Beth rydym yn ei arolygu ........ 2**

Cyflwyniad ........ 2

Gweithgareddau Addysg, Medrau a Gwaith ........ 2

Gwerthuso pob maes arolygu (MA) ........ 3

Yr adroddiad arolygu ........ 4

Pryderon a phryderon blaenoriaethol ........ 4

Terminoleg ........ 5

Mwy o wybodaeth ........ 5

Gweithgareddau Addysg, Medrau a Gwaith ........ 6

**Fframwaith ar gyfer arolygu gweithgareddau Addysg, Medrau a Gwaith mewn Carchardai Dynion yng Nghymru ........ 8**

Maes Arolygu 1: Addysgu a Dysgu ........ 8

Maes Arolygu 2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad ........ 10

Maes Arolygu 3: Arwain a gwella ........ 13

**Atodiad ........ 18**

## Y sail gyfreithiol ar gyfer arolygu carchardai dynion

Caiff arolygiadau o sefydliadau o fewn ystâd Carchardai Ei Fawrhydi (CEF) eu llywodraethu gan adrannau 5A a 43 ac Atodlen A1 Deddf Carchardai 1952 (fel y'i diwygiwyd). Mae'r darpariaethau hyn yn amlinellu cyfrifoldebau Prif Arolygydd Carchardai EF i arolygu

- carchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc, a chanolfannau hyfforddi diogel yng Nghymru a Lloegr;
- cyfleusterau gwarchodaeth llys yng Nghymru a Lloegr a hebryngwyr i'r cyfleusterau hyn, ac oddi wrthynt; a
- chanolfannau symud mewnfudwyr, cyfleusterau dal yn y tymor byr, llety cyn gadael a threfniadau hebrwng ledled y Deyrnas Unedig.

Mae Atodlen IA Deddf Carchardai 1952 yn amlinellu pwerau a dyletswyddau pellach y Prif Arolygydd Carchardai i gydweithredu ac ymgynghori ag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill a chyrff eraill i ddirprwyo unrhyw un o'i swyddogaethau a sicrhau nad yw arolygiadau gan gyrff penodol eraill yn rhoi baich afresymol ar sefydliadau o fewn ei gylch gwaith.

Mae Adran 57 Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn rhoi cyfrifoldeb am arolygu addysg bellach a hyfforddiant sy'n cael eu hariannu neu'u sicrhau gan Weinidogion Cymru i'r Prif Arolygydd dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Mae Adran (3) yn mynnu bod rhaid i'r Prif Arolygydd gyhoeddi adroddiad am bob arolygiad a gynhelir o dan yr adran hon, yn cynnwys barn ar—

(a) ansawdd yr addysg neu'r hyfforddiant a arolygwyd,
(b) y safonau a gyflawnir gan y rhai sy'n derbyn yr addysg neu'r hyfforddiant dan sylw, a
(c) ph'un a yw'r adnoddau ariannol y trefnwyd eu bod ar gael i'r darparwr addysg neu hyfforddiant yn cael eu rheoli'n effeithlon a'u defnyddio mewn ffordd sy'n darparu gwerth am arian.[1]

I roi'r darpariaethau hyn ar waith, bydd tîm Estyn yn cael gwahoddiad gan Brif Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi i gymryd rhan mewn ymarfer, y gallai Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi gyhoeddi neu beidio â chyhoeddi i'r carchar neu'r cyhoedd. Gelwir rhai arolygiadau heb fawr ddim rhybudd os yw data Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn nodi risgiau y maent yn dymuno'u harchwilio.

Mae gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi gyfrifoldeb cyffredinol am reoli'r arolygiad. Yn ystod yr arolygiadau hyn, mae Estyn yn gweithio yn unol â fframwaith disgwyliadau ar

[1] O'i dechrau, yn gweithio o dan adrannau 75, 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000 o hyd, ar hyn o bryd.

gyfer carchardai, ac oddi mewn iddo, ac yn llunio barnau ysgrifenedig yn unol â manyleb Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi. Fodd bynnag, mae Arolygydd Cofnodol (AC) Estyn yn gyfrifol am gynnal a rheoli ymglymiad Estyn yn yr arolygiad, ac am lunio adroddiad arolygu ar ddarpariaeth addysg, medrau a gwaith yn y sefydliad sy'n destun arolygiad, i'w gynnwys yn adroddiad cyffredinol Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi am yr arolygiad.

Dylai arolygwyr fod yn gyfarwydd â fframwaith ac arweiniad arolygu Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn ogystal â'r 'Disgwyliadau' ar gyfer gwahanol fathau o garcharu y mae Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi yn eu defnyddio i'w harwain yn ystod arolygiad.

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ac arweiniad am arolygu carchardai ar wefan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (HMIP): www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons.

## Rhan 1: Beth rydym yn ei arolygu

### Cyflwyniad

I sicrhau bod carchardai'n cael eu dwyn yn atebol am yr un safon perfformiad â darparwyr tebyg, rydym wedi dewis yn glir i fabwysiadu ein fframwaith arolygu ar gyfer colegau addysg bellach, i raddau helaeth. Mae cyfres o ddogfennau arweiniad atodol ar gael ar ein gwefan sy'n darparu mwy o wybodaeth am ein dulliau o arolygu agweddau amrywiol ar y fframwaith hwn.

Lle cafodd addasiadau eu gwneud, cawsant eu gwneud i ystyried adborth gan ein rhanddeiliaid a chyd-destun a nodau gweithgareddau addysg, medrau a gwaith o fewn yr ystâd ddiogel yng Nghymru.

Bydd arolygwyr Estyn yn gwerthuso'r gweithgareddau addysg, medrau a gwaith o fewn carchardai dynion yn erbyn y disgwyliadau canlynol.

### Gweithgareddau Addysg, Medrau a Gwaith

**Disgwylir i bob un o'r carcharorion ymgymryd â gweithgareddau addysg, medrau neu waith sy'n cynyddu eu cyflogadwyedd wedi iddynt gael eu rhyddhau, a chânt eu galluogi i ymgymryd â nhw. Ceir lleoedd addysg, medrau a gwaith digonol ac addas i ddiwallu anghenion y boblogaeth, ac mae safon y ddarpariaeth yn dda.**

Mae arolygwyr yn gwerthuso'r disgwyliadau hyn yn erbyn y tri maes arolygu hyn:

Maes Arolygu 1 – Addysgu a dysgu
Maes Arolygu 2 – Lles, gofal, cymorth ac arweiniad
Maes Arolygu 3 – Arwain a gwella

Mae'r meini prawf ar gyfer pob maes arolygu wedi'u hamlinellu isod.

## Gwerthuso pob maes arolygu (MA)

Ni fydd timau arolygu'n rhoi graddau cyffredinol ar gyfer pob maes arolygu. Byddant yn darparu gwerthusiad cadarn a thrylwyr o ddarpariaeth addysg, medrau a gwaith y carchar a'i heffaith ar ddysgu, lles a deilliannau dysgwyr.

Bydd arolygwyr bob amser yn cynnwys gwerthusiadau clir yn gysylltiedig â'r prif agweddau ym mhob maes arolygu, fel y dangosir isod. Fodd bynnag, efallai y bydd yr hyn y mae arolygwyr yn adrodd arno ym mhob maes arolygu yn wahanol yn dibynnu ar gyd-destun ac arwyddocâd cymharol yr hyn y maent yn dod o hyd iddo ym mhob carchar. Gallai arolygwyr adrodd 'trwy eithriad'. Mae hyn yn golygu y gallent adrodd ar rai agweddau dim ond lle mae cryfderau penodol neu feysydd penodol i'w gwella. Pan mae arolygwyr yn nodi unrhyw arfer ddiddorol neu arloesol sy'n werth ei rhannu'n ehangach, byddant yn cynnwys darn byr, 'ciplun ar...' o fewn yr adroddiad. Gallai Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi benderfynu cynnwys y cipluniau hyn fel 'arfer gadarnhaol nodedig' o fewn eu hadroddiad arolygu. Gweler yma i gael mwy o arweiniad ar ymagwedd Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi at arfer gadarnhaol nodedig.

Bydd y tîm arolygu'n cynnig barn drosfwaol sy'n ystyried y cydbwysedd o ran cryfderau a meysydd i'w datblygu a nodwyd yn ystod yr arolygiad, gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi isod:

**Mae deilliannau ar gyfer carcharorion yn dda.**

Nid oes tystiolaeth fod deilliannau ar gyfer carcharorion yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn unrhyw feysydd arwyddocaol.

**Mae deilliannau ar gyfer carcharorion yn weddol dda.**

Mae tystiolaeth o ddeilliannau andwyol ar gyfer carcharorion mewn nifer fach o feysydd yn unig. I'r mwyafrif, nid oes pryderon sylweddol. Mae gweithdrefnau i ddiogelu deilliannau ar waith.

**Nid yw deilliannau ar gyfer carcharorion yn ddigon da.**

Mae tystiolaeth fod deilliannau ar gyfer carcharorion yn cael eu heffeithio'n andwyol mewn llawer o feysydd neu yn enwedig yn y meysydd hynny sydd bwysicaf i les carcharorion. Mae problemau/pryderon, os nad ymdrinnir â nhw, yn debygol o ddod yn feysydd pryder difrifol.

**Mae deilliannau ar gyfer carcharorion yn wael.**

Mae tystiolaeth fod y deilliannau ar gyfer carcharorion yn cael eu heffeithio'n ddifrifol gan arfer bresennol. Mae methiant i sicrhau hyd yn oed triniaeth ac/neu amodau digonol ar gyfer carcharorion. Mae angen camau adferol ar unwaith.

Bydd y farn drosfwaol a gynigir gan dîm Estyn yn llywio barn gyffredinol Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Gweithgarwch Pwrpasol, ac yn cael ei chyhoeddi yn yr adroddiad arolygu.

Pan mae arolygwyr yn nodi pryderon difrifol mewn un maes arolygu neu fwy, bydd gweithgarwch dilynol fel arfer yn cael ei drefnu trwy drafod ag Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi. Ceir mwy o arweiniad ar bryderon a phryderon blaenoriaethol isod, ac am weithgarwch dilynol yn 'Sut rydym yn arolygu'.

## Yr adroddiad arolygu

Ar ôl arolygiad, bydd arolygwyr Estyn yn llunio adroddiad ar gyfer Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi i'w gynnwys yn eu hadroddiad trosfwaol o'r carchar a arolygwyd. Bydd yr adroddiad hefyd yn cael ei rannu â llywodraethwr y carchar a'r arweinydd gweithgareddau addysg, medrau a gwaith, a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi ar ffurf llythyr. Bydd Estyn yn cyhoeddi ei adroddiad ar ei wefan adeg cyhoeddi'r adroddiad trosfwaol ar gyfer yr arolygiad gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi, neu'n fuan ar ôl hynny.

## Pryderon a phryderon blaenoriaethol

Ar ddiwedd ein hadroddiad, bydd y tîm yn cynnwys set o bryderon a gytunwyd gan y tîm yn nodi'r meysydd allweddol sydd angen eu gwella. Dylai pryderon ddod yn uniongyrchol o gynnwys yr adroddiad a byddant yn cael eu hamlinellu yn nhrefn blaenoriaeth fel Pryderon Blaenoriaethol a Phryderon.

**Pryderon blaenoriaethol** yw'r meysydd pryder y mae angen i arweinwyr a rheolwyr roi sylw iddynt ar unwaith. Maent wedi'u cynllunio i helpu arweinwyr i flaenoriaethu meysydd gwendid, a dylid mynd i'r afael â nhw yn gyntaf er mwyn gwella deilliannau ar gyfer carcharorion.

Mae **meysydd pryder** yn nodi'r meysydd lle mae gwendidau sylweddol wrth drin carcharorion, a'r amodau ar eu cyfer. I fynd i'r afael â nhw, bydd angen eu newid o ran arfer ac/neu ailgyfeirio adnoddau.

Bydd pryderon blaenoriaethol, ynghyd â meysydd pryder dethol, yn cael eu hadolygu mewn adolygiad annibynnol o gynnydd neu arolygiad. Dylai'r ffocws fod ar b'un a yw'r pryder wedi cael ei ddatrys a deilliannau wedi gwella.

## Terminoleg

Yn yr arweiniad hwn, rydym yn defnyddio'r gair "dysgwr(dysgwyr)" yn bennaf ar gyfer pobl sy'n cael eu dal yn yr ystâd ddiogel yng Nghymru yn hytrach na "carcharor(ion)". Rydym yn gwneud hynny oherwydd, yng nghyd-destun gweithgareddau addysg, medrau neu waith carchardai, rydym fel arfer yn ystyried bod carcharorion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu, medrau a gwaith yn dysgu i gynnal neu ddatblygu medrau a fydd yn eu cynorthwyo i leihau risg aildroseddu a gwella'u cyfleoedd i ailsefydlu'n llwyddiannus wedi iddynt gael eu rhyddhau. Byddwn yn defnyddio'r term "carcharor(ion)" i ddisgrifio'r boblogaeth gyffredinol neu'r rhai nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu, medrau a gwaith.

Byddwn yn defnyddio'r gair "athro(athrawon)" neu "staff addysgu" i ddisgrifio'r rhai sy'n rhoi cyfarwyddyd o unrhyw fath yn ystod gweithgareddau addysg, medrau neu waith. Mae hyn yn helpu sicrhau nad oes modd adnabod unigolion.

## Mwy o wybodaeth

Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth ac arweiniad am arolygiadau ar wefan yr arolygiaeth:

[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

## Gweithgareddau Addysg, Medrau a Gwaith

**Disgwylir i bob un o'r carcharorion ymgymryd â gweithgareddau addysg, medrau neu waith sy'n cynyddu eu cyflogadwyedd wedi iddynt gael eu rhyddhau, ac maent yn cael eu galluogi i ymgymryd â'r gweithgareddau hyn. Ceir lleoedd addysg, medrau a gwaith digonol ac addas i ddiwallu anghenion y boblogaeth, ac mae safon y ddarpariaeth yn dda.**

### Meysydd arolygu

Bydd arolygwyr yn gwerthuso'r disgwyliadau hyn yn erbyn y fframwaith canlynol. Mae'r fframwaith yn esbonio beth mae pob maes arolygu yn ei gwmpasu a beth mae angen i arolygwyr ei gadw mewn cof wrth werthuso pob un. Mae'r meysydd arolygu wedi'u rhifo yn un i dri, ond maent i gyd yr un mor bwysig â'i gilydd.

| 1. Addysgu a Dysgu | 2. Lles, gofal, cymorth ac arweiniad | 3. Arwain a gwella |
|---|---|---|
| Pa mor effeithiol y mae gweithgareddau addysg, medrau a gwaith y carchar yn cefnogi'r holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o gael deilliannau andwyol, er enghraifft oherwydd eu ADY neu o ganlyniad i rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd, o ran:<br><br>**1.1** Safonau gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau dysgwyr<br><br>**1.2** Agweddau dysgwyr at ddysgu a gwaith<br><br>**1.3** Ansawdd profiadau dysgu a gwaith, addysgu, hyfforddi ac asesu | Pa mor effeithiol y mae'r carchar yn cefnogi lles a datblygiad personol yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o gael deilliannau andwyol, er enghraifft oherwydd eu ADY neu o ganlyniad i rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd, o ran:<br><br>**2.1** Yr effaith ar les a datblygiad personol dysgwyr<br><br>**2.2** Ansawdd y ddarpariaeth i helpu dysgwyr i deimlo'n ddiogel, a'u cadw eu hunain yn ddiogel, i ddatblygu fel unigolion, a datblygu medrau, agweddau ac ymddygiadau sy'n helpu lleihau eu risg o aildroseddu | Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth o ran:<br><br>**3.1** Cyfeiriad strategol a rheolaeth weithredol<br><br>**3.2** Hunanwerthuso a gwelliant<br><br>**3.3** Cynllunio a goruchwylio'r ddarpariaeth<br><br>**3.4** Datblygu'r gweithle a dysgu proffesiynol |

| | | |
|---|---|---|
| | **2.3** Effeithiolrwydd y cymorth, y cyngor a'r arweiniad i helpu dysgwyr i oresgyn unrhyw anfantais y gallent ei hwynebu, a chynllunio'n llwyddiannus ar gyfer eu rhyddhau | |

## Fframwaith ar gyfer arolygu gweithgareddau Addysg, Medrau a Gwaith mewn Carchardai Dynion yng Nghymru

### Maes Arolygu 1: Addysgu a Dysgu

Pa mor effeithiol y mae gweithgareddau addysg, medrau a gwaith y carchar yn cefnogi'r holl garcharorion, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o gael deilliannau andwyol, er enghraifft oherwydd eu ADY neu rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd, o ran:

**1.1** Safonau gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau dysgwyr
**1.2** Agweddau dysgwyr at ddysgu a gwaith
**1.3** Ansawdd y profiadau dysgu a gwaith, addysgu, hyfforddi ac asesu

### 1.1 Safonau gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau'r holl ddysgwyr

(*Sylwer: mae'r pwyntiau bwled hyn wedi'u rhestru fwy neu lai yn unol â threfn ddysgu gronolegol yn hytrach na hierarchaeth pwysigrwydd)*

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae carcharorion yn gwneud cynnydd o'u man cychwyn, o ran eu bod:

- yn galw dysgu blaenorol i gof
- yn datblygu medrau meddwl
- yn caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau newydd
- yn datblygu medrau ymarferol, gan gynnwys medrau a chrefft sy'n benodol i bwnc neu alwedigaeth
- yn cymhwyso'u gwybodaeth, eu medrau a'u profiad i gyd-destunau newydd
- yn datblygu creadigrwydd, yn cynnwys datrys problemau creadigol
- yn datblygu eu medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu
- yn datblygu medrau rhifedd a digidol
- yn datblygu eu medrau cyflogadwyedd
- yn datblygu ymwybyddiaeth o werth y Gymraeg a'i diwylliant
- yn achos siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg, cynnal neu ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg i gefnogi eu rhagolygon cyflogaeth a'u rhyngweithio cymdeithasol yn y dyfodol
- yn gwneud cynnydd da ac amserol o'u mannau cychwyn tuag at nodau dysgu tymor byr a thymor hir unigol
- yn cyflawni deilliannau cymhwyster ac achrediad, ac ar gyflymdra, lefel a gradd addas
- yn symud ymlaen i gyrchfannau cadarnhaol mewn addysg, hyfforddiant, cyflogaeth neu hunangyflogaeth, ac yn eu cynnal, lle bo'n briodol, o fewn ystâd y carchar neu wedi iddynt gael eu rhyddhau

## 1.2 Agweddau dysgwyr at ddysgu a gwaith

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae dysgwyr:

- yn datblygu hyder ac uchelgais, ac wedi'u cymell i ddysgu
- yn ymgysylltu'n llawn, yn dal ati i ganolbwyntio ac yn dangos diddordeb yn eu gwaith
- yn ymgymryd â phrofiadau a syniadau newydd
- yn datblygu eu medrau cyfathrebu
- yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon ac yn cyfrannu'n bwrpasol at drafodaethau gyda chyfoedion ac athrawon
- yn ystyried safbwyntiau a chyfraniadau pobl eraill yn barchus ac yn gwneud defnydd adeiladol ohonynt
- yn ymestyn ac yn herio'u hunain
- yn dyfalbarhau pan fyddant yn wynebu anawsterau ac yn chwilio am atebion i heriau
- yn deall eu cryfderau a'u meysydd i'w datblygu a sut i wella'u gwaith
- yn dysgu oddi wrth eu camgymeriadau
- yn gallu gweithio'n annibynnol a dangos medrau gwaith tîm cryf
- yn defnyddio adborth gan eu hathrawon a phobl eraill yn adeiladol i wneud mwy o gynnydd yn eu dysgu
- yn gwerthfawrogi ac yn deall diben eu dysgu a gweithgareddau eraill a'u potensial ar gyfer lleihau risg aildroseddu

## 1.3 Ansawdd profiadau dysgu, addysgu ac asesu

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae athrawon ac ymarferwyr eraill:

- wedi eu cymhwyso'n briodol, yn meddu ar wybodaeth bynciol dda a'r medrau a'r profiad sy'n berthnasol i'w rolau
- pan mae angen gwybodaeth arbenigol a galwedigaethol, bod hyn yn adlewyrchu arfer orau mewn diwydiant i ddiwallu anghenion cyflogwyr
- yn cynllunio'n effeithiol i fodloni gofynion pob rhaglen ddysgu a bod ganddynt amcanion clir ar gyfer dysgu, gan gynnwys dysgu mewn celloedd
- yn cytuno ar nodau dysgu unigol ysbrydoledig sy'n ystyried mannau cychwyn dysgwyr ac yn eu herio i ddatblygu eu gwybodaeth a'u medrau i wella'u rhagolygon cyflogaeth
- yn meddu ar ddisgwyliadau uchel o bob un o'r dysgwyr ac yn sicrhau bod cynllunio, strategaethau addysgu a strategaethau dysgu wedi'u seilio ar ddealltwriaeth gadarn o'u mannau cychwyn ac yn diwallu eu hanghenion, gan gynnwys y rhai ag ADY a dysgwyr eraill sydd mewn perygl o gael deilliannau andwyol
- yn rhoi cyfarwyddiadau ac esboniadau clir
- yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau i gymell, ennyn diddordeb a symbylu dysgwyr

- yn defnyddio holi i gael amcan o ddealltwriaeth dysgwyr a datblygu eu meddwl a'u hymatebion
- yn helpu dysgwyr i ddatblygu a chymhwyso'u gwybodaeth a'u medrau'n ystyrlon yn eu cyd-destun, gan gynnwys eu medrau llythrennedd, rhifedd, digidol a medrau cyflogadwyedd trosglwyddadwy eraill
- yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu medrau darllen o'u mannau cychwyn
- yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig i helpu dysgwyr i wybod pa mor dda y maent yn gwneud a sut i wella
- yn sicrhau bod asesiadau'n ddilys, yn amserol, yn gywir ac yn ddibynadwy
- yn olrhain ac yn cadw cofnodion ar gynnydd pob dysgwr, ac yn adrodd ar y rhain yn glir
- yn ymateb i ddeilliannau asesiadau yn briodol, er enghraifft trwy addasu'r addysgu, y nodau dysgu neu ddarparu cymorth priodol
- yn sicrhau bod dysgwyr yn adolygu eu dysgu eu hunain yn rheolaidd, yn deall eu cynnydd, ac yn cael eu cynnwys mewn gosod eu targedau dysgu eu hunain, gan gynnwys defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer dysgwyr ag ADY
- yn gweithio'n effeithiol gyda staff cymorth technegol, dysgu a staff cymorth eraill a mentoriaid cyfoedion i roi arweiniad unigol i ddysgwyr a'u helpu i gefnogi eu cynnydd
- yn herio stereoteipiau yn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau dysgwyr

## Maes Arolygu 2: Lles, gofal, cymorth ac arweiniad

Pa mor effeithiol y mae'r carchar yn cefnogi lles pob un o'r dysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o gael deilliannau andwyol, er enghraifft oherwydd eu ADY neu o ganlyniad i rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd, o ran:

**2.1** Yr effaith ar les a datblygiad personol dysgwyr
**2.2** Ansawdd y ddarpariaeth i helpu dysgwyr i deimlo'n ddiogel, ac aros yn ddiogel, i ddatblygu fel unigolion, a datblygu medrau, agweddau ac ymddygiadau sy'n helpu lleihau eu risg o aildroseddu.
**2.3** Effeithiolrwydd y cymorth, y cyngor a'r arweiniad i helpu dysgwyr i oresgyn unrhyw anfantais y gallent ei hwynebu, a chynllunio'n llwyddiannus ar gyfer eu rhyddhau

### 2.1 Yr effaith ar les a datblygiad personol dysgwyr

Dylai arolygwyr ystyried y graddau y mae dysgwyr:

- yn teimlo'n ddiogel, yn saff ac yn rhydd oddi wrth gam-drin yn ystod eu gweithgareddau addysg, medrau a gwaith
- yn mynychu'n rheolaidd ac yn cyrraedd eu gweithgareddau addysg, medrau a gwaith yn brydlon
- yn cael eu cefnogi trwy weithgareddau addysg, medrau a gwaith i wella'u lles

- yn ymddwyn yn gyfrifol ym mhob fforwm, ac yn barchus, yn ystyriol ac yn gefnogol i'w cyfoedion, eu hathrawon a phobl eraill
- yn datblygu hunanymwybyddiaeth a medrau i gefnogi i ymatal rhag ymddygiad troseddol
- yn cydnabod ac yn ymateb yn briodol i ymddygiadau niweidiol neu afiach
- yn datblygu'r ddealltwriaeth a'r medrau i gymryd rhan yn adeiladol yng nghymuned y carchar, ac yn y gymdeithas ehangach fel dinasyddion egwyddorol a gwybodus, er enghraifft
    - parchu a gwerthfawrogi cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
    - gwneud dewisiadau iach am ffordd o fyw
    - meithrin perthnasoedd iach
- yn datblygu eu medrau byw yn annibynnol, lle bo'n briodol
- yn cymryd rhan yn adeiladol ac yn ymgymryd â rolau a chyfrifoldebau arwain, yn enwedig y dysgwyr hynny o grwpiau lleiafrifol neu sydd fel arall mewn perygl o gael deilliannau andwyol
- yn teimlo bod staff addysg, medrau a gwaith y carchar yn gwrando ar eu safbwyntiau a'u syniadau, ac yn ymateb iddynt

### 2.2 Ansawdd y ddarpariaeth i helpu dysgwyr i deimlo'n ddiogel, a'u cadw eu hunain yn ddiogel, i ddatblygu fel unigolion, a datblygu medrau, agweddau ac ymddygiadau sy'n helpu lleihau eu risg o aildroseddu

Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae darpariaeth addysg, medrau a gwaith y carchar:

- yn hyrwyddo arferion diogel a diwylliant diogelwch a chynhwysiant o fewn addysg, medrau a gweithleoedd
- yn cefnogi ac yn annog dysgwyr i ddatblygu ymddygiadau ac agweddau cadarnhaol at ddysgu a gweithgareddau gwaith
- yn mynd i'r afael ag ymddygiad ac agweddau gwael yn briodol
- yn datblygu gwybodaeth dysgwyr am effaith ymddygiadau sy'n niweidiol yn emosiynol neu'n anniogel, a dealltwriaeth ohonynt, er enghraifft meithrin perthynas amhriodol, aflonyddu rhywiol, gwahaniaethu, bwlio, aflonyddu ac eithafiaeth, ac yn mynd i'r afael â'r ymddygiadau hyn yn briodol pan fyddant yn digwydd, gan gynnwys cydymffurfio'n briodol â dyletswydd Atal
- yn helpu dysgwyr i ddatblygu'r ymddygiadau i gymryd rhan yn adeiladol yng nghymuned y carchar, y gymdeithas ehangach, ac yn helpu lleihau eu risg o aildroseddu
- yn herio stereoteipiau mewn agweddau, dewisiadau a disgwyliadau, ac yn cefnogi dysgwyr i werthfawrogi a pharchu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant
- yn sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cadw'n ddiogel rhag peryglon radicaleiddio

- yn hyrwyddo dewisiadau iach am ffordd o fyw, yn cynnwys o ran gweithgarwch corfforol, bwyta ac yfed yn iach, ffurfio a chynnal perthnasoedd iach, camddefnyddio sylweddau, diogelwch ar-lein ac iechyd meddwl
- yn ymateb i faterion diogelu

### 2.3 Effeithiolrwydd y cymorth, y cyngor a'r arweiniad i helpu dysgwyr i oresgyn unrhyw anfantais y gallent ei hwynebu a chynllunio'n llwyddiannus ar gyfer eu rhyddhau

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae'r carchar:

- yn defnyddio asesiadau cychwynnol a pharhaus dilys, cywir a dibynadwy o anghenion dysgwyr, yn cynnwys sgrinio ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal â'u profiad a'u cyrhaeddiad blaenorol i ddarparu gwaelodlin a llywio'u gweithgareddau addysg, medrau neu waith
- yn darparu arweiniad a chyngor hygyrch a diduedd am ystod lawn y gweithgareddau addysg, medrau a gwaith sydd ar gael iddynt yn y carchar
- yn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus wrth gynllunio'u gweithgareddau dysgu, hyfforddi a gwaith tra byddant yn y carchar er mwyn iddynt allu gwella cynllunio dilyniant ac ailsefydlu
- yn sicrhau bod cynlluniau dysgu personol yn cofnodi deilliannau asesiadau ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a nodwyd yn gywir, yn ôl eu math
- yn sicrhau bod cynlluniau dysgu'n cynnwys nodau tymor byr a thymor hir realistig gan roi ystyriaeth dda i gynlluniau dedfryd, anghenion a diddordebau dysgwyr
- yn adolygu cynlluniau dysgu'n ystyrlon, gan wneud addasiadau lle mae angen, a'u bod yn darparu cofnod cyfoes o weithgareddau dysgu a datblygu
- yn sicrhau bod cymwysterau dysgwyr a'u medrau yn gysylltiedig â chyflogaeth yn cael eu cydnabod a'u cofnodi'n effeithiol
- yn sicrhau bod cynlluniau dysgu personol a chofnodion cyflawniad yn cael eu trosglwyddo ac yn hygyrch ar ôl trosglwyddo o'r carchar
- yn darparu cymorth ar gyfer iechyd corfforol, iechyd meddwl, anghenion emosiynol a chymdeithasol dysgwyr er mwyn iddynt allu mwynhau eu dysgu ac elwa ar y cyfleoedd y mae'n eu cynnig
- yn darparu cymorth ymatebol i'r holl ddysgwyr sydd mewn perygl o gael deilliannau andwyol, fel y rhai ag anableddau neu ADY, neu rwystrau eraill a nodwyd rhag gwneud cynnydd, yn cynnwys heriau personol, emosiynol ac iechyd
- yn gweithio mewn partneriaethau ag adrannau, sefydliadau, cyflogwyr neu wasanaethau eraill i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer dysgwyr, yn cynnwys sicrhau gwasanaethau asiantaethau arbenigol, lle bo'n briodol, i sicrhau deilliannau cryf yn y carchar ac ar ôl cael eu rhyddhau

- yn olrhain a monitro dangosyddion cynnydd a lles dysgwyr, er enghraifft presenoldeb, ymgysylltiad ac ymddygiad, yn cynnwys grwpiau sydd mewn perygl o gael deilliannau andwyol
- yn nodi materion perthnasol ac yn ymateb yn briodol i ddeilliannau olrhain a monitro, er enghraifft trwy strategaethau ymyrraeth
- yn cynorthwyo dysgwyr mwy abl a thalentog i gyflawni eu potensial o fewn eu rhaglenni dysgu ffurfiol a thu hwnt
- yn helpu dysgwyr, gan gynnwys y rhai o grwpiau bregus a lleiafrifol, i ymgymryd â chyfrifoldebau a chwarae rhan yng nghymuned ehangach y carchar
- yn darparu cyngor ac arweiniad diduedd i garcharorion, naill ai'n uniongyrchol neu drwy asiantaethau allanol, am eu hopsiynau addysg, hyfforddiant, gyrfa a'r byd gwaith yn y dyfodol i baratoi ar gyfer eu rhyddhau, gan gynnwys yn Gymraeg, lle mae angen
- yn arwain ac yn cefnogi carcharorion wrth iddynt baratoi i bontio i'r cyfnod dysgu nesaf, cyflogaeth, hunangyflogaeth a byw yn annibynnol, lle bo'n berthnasol, gan gynnwys trwy fynediad at hyfforddiant a dulliau modern o ran addysg, hyfforddiant a chwilio am swyddi, ac ymgeisio trwy'r rhyngrwyd

## Maes Arolygu 3: Arwain a gwella

Pa mor effeithiol yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth o ran:

**3.1** Cyfeiriad strategol a rheolaeth weithredol
**3.2** Hunanwerthuso a gwelliant
**3.3** Cynllunio a goruchwylio'r ddarpariaeth
**3.4** Datblygu'r gweithlu a dysgu proffesiynol

Dylai arolygwyr ystyried yr agweddau isod yn sgil y gwahaniaeth a wnânt i gynnydd, lles a datblygiad yr holl ddysgwyr.

### 3.1 Cyfeiriad strategol a rheolaeth weithredol

Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae arweinwyr:

- wedi sefydlu a chyfleu gweledigaeth a nodau clir ar gyfer addysg, medrau a gwaith sy'n canolbwyntio ar ddiwallu anghenion dysgwyr, lleihau aildroseddu a hwyluso ailintegreiddio dysgwyr yn ôl i'r gymdeithas
- yn sicrhau bod amcanion, cynlluniau a pholisïau strategol yn cefnogi eu gweledigaeth a'u nodau ar gyfer addysg, medrau a gwaith
- yn cydweithio i yrru blaenoriaethau datblygiad a gwelliant strategol ymlaen, gan gynnwys gydag adrannau eraill y carchar
- yn datblygu tîm effeithiol, ymgysylltiedig o staff

- yn modelu a hyrwyddo gwerthoedd ac ymddygiadau proffesiynol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at ddarpariaeth gweithgareddau addysg, medrau a gwaith y carchar
- yn sicrhau eu bod nhw a'r staff ar bob lefel yn deall ac yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau yn effeithiol
- yn hyrwyddo manteision cymryd rhan mewn addysg, medrau a gweithgareddau i garcharorion a sicrhau lefelau cyfranogiad uchel
- yn sicrhau bod trefniadau ar waith i bennu dysgwyr i weithgareddau yn brydlon, a'u cynorthwyo i fynychu'n rheolaidd a chyrraedd sesiynau'n brydlon
- yn gosod disgwyliadau uchel ar gyfer staff, dysgwyr a nhw eu hunain
- yn sicrhau cynnydd yr holl ddysgwyr, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl penodol o gael deilliannau andwyol, gan arwain at ddeilliannau cryf a dilyniant cadarnhaol
- yn lleihau effaith rhwystrau rhag lles, cyrhaeddiad a dilyniant dysgwyr
- yn cefnogi datblygiad medrau sylfaenol a chyflogadwyedd dysgwyr, gan gynnwys eu medrau darllen
- yn sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr, uniongyrchol ag anghenion cyflogaeth ac ailsefydlu tymor hir dysgwyr, y gymuned leol a Chymru
- yn atal problemau rhag digwydd neu'n rhoi camau unioni ar waith yn gyflym pan fydd problemau'n digwydd
- yn sicrhau bod penderfyniadau am wariant a chynllunio ariannol ehangach yn cysylltu â blaenoriaethau strategol a chynllunio gwelliant
- yn monitro a rheoli perfformiad partneriaid cyflwyno ac is-gontractwyr, yn ymwneud â dysgu, addysgu, hyfforddi, lles, cymorth, arweiniad ac arweinyddiaeth, yn drylwyr
- yn sicrhau ansawdd a lefel staffio ac adnoddau dysgu i gyflwyno'r ddarpariaeth gynlluniedig yn effeithiol
- yn sicrhau bod lleoedd a chyfleusterau priodol, yn cynnwys seilweithiau digidol, ar gael ac yn cael eu defnyddio'n ddiogel, yn effeithiol ac yn effeithlon i gefnogi addysgu, dysgu, asesu a lles
- yn sicrhau bod cyllid ychwanegol a dderbyniwyd at ddibenion penodol, er enghraifft i gynorthwyo dysgwyr ag anghenion penodol, yn cynnwys anabledd neu ADY, yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol ac yn unol â'r bwriad
- yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, yn datblygu medrau Cymraeg carcharorion ac yn diwallu anghenion cyngor ac arweiniad carcharorion sy'n siarad Cymraeg fel eu hiaith gyntaf

A pha mor dda y mae uwch arweinwyr y carchar:

- yn cefnogi'r weledigaeth a'r nodau ar gyfer addysg, medrau a gwaith yn weithredol ym mholisïau, gweithdrefnau, cyfundrefn a hyfforddiant ehangach y carchar
- yn dylanwadu ar gyfeiriad strategol darpariaeth addysg, medrau a gwaith a sut mae hyn yn cefnogi gweledigaeth y carchar ehangach, ac yn eu deall
- yn hyrwyddo cyfranogiad mewn gweithgareddau addysg, medrau a gwaith

- yn gwybod beth yw cryfderau'r ddarpariaeth a'i meysydd i'w gwella o ran addysg, medrau a gwaith
- yn cefnogi a herio arweinwyr wrth iddynt wella cwricwlwm ac arlwy gweithgareddau'r carchar, a chynnal safonau uchel
- yn sicrhau bod cyfraddau cyflog a gwobrau yn cymell carcharorion i gymryd rhan a gwneud cynnydd mewn gweithgareddau addysg a hyfforddiant

### 3.2 Hunanwerthuso a gwelliant

Dylai arolygwyr ystyried pa mor dda y mae arweinwyr a rheolwyr:

- yn casglu a dadansoddi tystiolaeth uniongyrchol i lywio gwerthusiad o'r ddarpariaeth addysg, medrau a gwaith, yn cynnwys safbwyntiau dysgwyr
- wedi datblygu dulliau i ddadansoddi effaith y ddarpariaeth ar ddeilliannau dysgwyr, yn cynnwys grwpiau penodol, ac ar leihau ymddygiadau aildroseddu
- yn gwybod beth yw cryfderau'r carchar a'i feysydd i'w gwella ar draws gweithgareddau addysg, medrau a gwaith
- yn monitro dilyniant a chyrchfannau'r rhai sy'n gadael y carchar i addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, ac yn defnyddio'r data hwn i werthuso effaith ac i gynllunio darpariaeth
- yn cydweithio â phartneriaid a rhanddeiliaid priodol, yn ogystal â'r dysgwyr eu hunain, i werthuso a sicrhau gwelliannau
- yn sicrhau bod blaenoriaethau ar gyfer gwella a nodwyd yn cysylltu â deilliannau hunanasesu
- yn diffinio camau perthnasol a mesuradwy ar gyfer gwella gyda graddfeydd amser addas, ac yn dyrannu cyfrifoldeb ar gyfer eu cyflawni
- yn sicrhau bod blaenoriaethau gwella yn cael eu cefnogi gan ddyrannu adnoddau yn briodol
- yn meddu ar hanes cryf o ran gwneud gwelliannau sy'n cael effaith gadarnhaol ar les, dysgu, deilliannau a dilyniant dysgwyr
- yn sicrhau gwelliannau yn seiliedig ar yr argymhellion yn gysylltiedig â gweithgareddau addysg, medrau neu waith o arolygiadau blaenorol Estyn
- yn cydweithio â darparwyr a phartneriaid eraill i gyflawni gwelliannau yn y system addysg yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol i feithrin eu gallu ar gyfer gwella, a gwella ailintegreiddio dysgwyr i gymdeithas
- yn gweithio i fodloni blaenoriaethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol ar gyfer addysg mewn carchardai

### 3.3 Cynllunio a goruchwylio'r ddarpariaeth

Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr yn sicrhau bod y ddarpariaeth:

- yn ddigonol ac yn darparu ar gyfer poblogaeth y carchar llawn
- yn rhoi ystyriaeth dda i wybodaeth leol a chenedlaethol am y farchnad lafur, safbwyntiau, anghenion a diddordebau carcharorion, a'i bod yn briodol o ymatebol a hyblyg
- yn ddigon amrywiol i gefnogi anghenion datblygiad galwedigaethol, academaidd a phersonol carcharorion, gan ddarparu cynnig cydlynus gyda llwybrau dilyniant clir, yn cynnwys at addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth, wedi iddynt gael eu rhyddhau
- yn arwain at achrediad addas, lle bo'n briodol
- yn cael ei threfnu i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cadw'n hollol brysur ac yn cymryd rhan yn eu gweithgareddau gyda chyn lleied o darfu â phosibl
- yn cael ei hadolygu a'i chynllunio'n strategol, mewn cydweithrediad â phartneriaid a rhanddeiliaid perthnasol, fel darparwyr, cyflogwyr a gwasanaethau addysg
- yn darparu ar gyfer grwpiau penodol, e.e. y rhai â gwybodaeth a medrau datblygedig, a'r rhai y mae eu mannau cychwyn y tu ôl i'w cyfoedion, dysgwyr ag ADY, neu ddysgwyr SIY / SSIE
- yn gwella medrau llythrennedd, rhifedd a digidol dysgwyr, yn cynnwys trwy integreiddio ystyrlon i brofiadau galwedigaethol, academaidd neu ehangach
- yn darparu i garcharorion ddatblygu eu medrau darllen fel rhan o strategaeth ddarllen briodol
- yn darparu ar gyfer dysgwyr ag anghenion cymhleth fel eu bod yn datblygu annibyniaeth, medrau gwneud penderfyniadau a chyfathrebu i'w helpu i baratoi ar gyfer eu lleoliad nesaf neu ar ôl eu rhyddhau
- yn cefnogi a datblygu defnydd diogel a saff o dechnoleg ddigidol a chynnwys digidol, yn cynnwys y rhyngrwyd, mewn gweithgareddau addysgu a dysgu
- yn cynnwys profiad yn gysylltiedig â gwaith i ddatblygu medrau galwedigaethol a chyflogadwyedd, gan gynnwys trwy ddefnydd priodol o ryddhau ar drwydded dros dro ("ROTL")
- yn cefnogi carcharorion, yn enwedig siaradwyr Cymraeg a dysgwyr Cymraeg, i ddefnyddio a datblygu eu medrau Cymraeg
- yn cynnwys gweithgareddau dysgu sy'n hyrwyddo ac yn adlewyrchu amrywiaeth ddiwylliannol, ieithyddol ac ethnig Cymru

## 3.4 Datblygu'r gweithlu a dysgu proffesiynol

Dylai arolygwyr ystyried pa mor effeithiol y mae arweinwyr a rheolwyr:

- wedi sefydlu diwylliant ac ethos o gefnogi dysgu proffesiynol ar gyfer pob un o'r staff
- yn sicrhau bod staff yn meddu ar fedrau ac arbenigedd sy'n berthnasol i'w rolau, gan gynnwys gwybodaeth arbenigol, lle mae angen, ac yn eu cynnal, i'w galluogi i gyflwyno'u rhaglenni a diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr yn effeithiol

- yn rheoli perfformiad staff i'w helpu i wella'u harfer, yn enwedig i gefnogi blaenoriaethau gwella sy'n deillio o hunanwerthuso
- yn nodi a hwyluso rhannu arfer dda, yn fewnol ac o fewn y sector ehangach, gyda staff a darparwyr eraill
- yn mynd i'r afael â materion tanberfformio mewn ffordd gadarn ond cefnogol
- yn sicrhau bod pob un o'r staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu proffesiynol a rheoli perfformiad gwerthfawr
- yn gwerthuso effaith dysgu proffesiynol ar gynnydd a lles dysgwyr
- yn annog ac yn cynorthwyo staff i weithio gyda sefydliadau eraill i wella'u harfer a diweddaru eu medrau galwedigaethol a'u gwybodaeth dechnegol
- yn ystyried a chefnogi lles a diogelwch staff, yn cynnwys ystyriaethau baich gwaith a'r graddau y mae arweinwyr yn ystyried effaith unrhyw ofynion gwaith newydd neu ddiwygiedig

## Atodiad

Dysgwyr sydd mewn perygl o gael deilliannau andwyol

Cyhyd ag y bo'n ymarferol, ar draws y meysydd arolygu, dylai arolygwyr ystyried y ddarpariaeth ar gyfer grwpiau o ddysgwyr, a'r effaith arnynt, er enghraifft, ond nid yn unig y rhai:

- o wahanol gefndiroedd ethnig lleiafrifol
- sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol yng nghyd-destun darpariaeth cyfrwng Saesneg
- yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf
- sydd â gwahanol fathau o angen dysgu ychwanegol (ADY)
- y mae angen iddynt wella'u medrau llythrennedd, rhifedd neu ddigidol o gymharu â dysgwyr eraill, yn enwedig eginddarllenwyr neu'r rhai nad ydynt yn ddarllenwyr
- ag anableddau
- ag anghenion meddygol, gan gynnwys y rhai ag anghenion iechyd meddwl
- sydd â phrofiad o ofal
- a gafodd addysg heblaw yn yr ysgol yn y gorffennol
- sy'n weithwyr mudol, yn ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches
- â phresenoldeb ac ymgysylltiad isel
- sy'n fwy abl a thalentog
- sy'n grwpiau eraill o ddysgwyr, sydd mewn perygl o gael deilliannau andwyol oherwydd nodwedd warchodedig neu rwystr a nodwyd rhag dysgu neu gynnydd na chrybwyllir uchod, fel math o drosedd, oedran neu gyfeiriadedd rhywiol